Ysgol Llanhari

Llanhari, Pontyclun, Rhondda Cynon Taf, CF72 9XE
01443 237824 | post@llanhari.cymru
www.llanhari.cymru

17eg o Orffennaf 2025

Annwyl Rieni a Gofalwyr

Ar ddiwedd blwyddyn hynod brysur arall yn Ysgol Llanhari, hoffwn ddiolch yn fawr iawn i chi fel rhieni am eich cefnogaeth barhaus. Mae wedi bod yn bleser unwaith eto i gyd-weithio â disgyblion a staff yr ysgol ac rwy'n hynod o falch o'r hyn rydym wedi ei gyflawni eleni eto. Mae'r ysgol wedi mynd o nerth i nerth ac mae'r disgyblion ar draws yr ystod oed wedi cael profiadau bythgofiadwy. Rwy'n ddiolchgar iawn i'r staff am hyn ac mae egni a brwdfrydedd y disgyblion wedi bod yn heintus. Mae'r uchafbwyntiau yn niferus iawn ond rhaid diolch yn arbennig i bawb a gefnogodd ddathliadau 50 mlynedd yr ysgol ar wahanol adegau o'r flwyddyn. Rydym hefyd yn gyffrous bod cynllunio ar gyfer adeilad newydd ar y cyd â'r Awdurdod Lleol yn dod yn ei flaen yn dda a mae sawl ymwelydd wedi bod ar y safle yn ddiweddar fel rhan o'r broses.

Bydd rhai aelodau o staff yn ein gadael ar ddiwedd y tymor. Mae Mrs Emma Goodridge, Arweinydd yr Adran Saesneg yn ymddeol. Mae ei chyfraniad i'r ysgol dros yr ugain mlynedd ddiwethaf wedi bod yn amhrisiadwy a dymunwn yn dda iddi hi ar ei hymddeoliad. Miss Danielle Gunn yw Arweinydd newydd yr Adran Saesneg. Bydd Miss Catrin Rowlands, Arweinydd Adran y Gymraeg yn symud i swydd newydd fel Pennaeth Addysg Amgueddfa Cymru. Dymunwn yn dda iddi ar ei swydd newydd a diolchwn iddi hi hefyd am ei chyfraniad nodedig i'r ysgol dros y blynyddoedd. Mrs Cerys Davies-Harries fydd Arweinydd newydd Adran y Gymraeg pan fydd hi'n dychwelyd o'i chyfnod mamolaeth. Bydd Mr Daniel Harries a Miss Sophie Powell yn symud i'r Gorllewin i swyddi newydd yn ysgolion Maes y Gwendraeth a'r Strade tra bod Miss Lois Griffith yn symud i Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg ar ôl cyfnod o deithio. Diolch i bob un ohonynt am am eu gwaith. Croeso nôl yr wythnos hon i Miss Bronwen Swain o'i chyfnod mamolaeth.

Wrth droi ein golygon tuag at fis Medi, hoffwn dynnu eich sylw at rhai materion isod:

**Defnyddio Ap Bromcom**

Rydych eisioes wedi derbyn y manylion am Bromcom oddi wrth Mrs Porter yr wythnos hon. Hoffwn bwysleisio na fyddwn yn defnyddio Classcharts o fis Medi ymlaen.

**Dychwelyd i'r ysgol**

Edrychaf ymlaen at groesawu pawb yn ôl fis Medi gan gynnwys,wrth gwrs, ddisgyblion Dosbarth Barcud, Blwyddyn 6 Llanhari sy'n trosglwyddo i'r adran uwchradd. **Diwrnod cyntaf y tymor i ddisgyblion fydd Dydd Mercher Medi'r 3ydd 2025.** Mae Dydd Llun Medi'r 1af a Dydd Mawrth Medi'r 2il yn ddiwrnodau HMS yn Ysgol Llanhari. Byddwch yn derbyn calendr o holl ddyddiadau pwysig y flwyddyn yn gynnar ym mis Medi ond dyma'r diwrnodau HMS ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf:

1 + 2 Medi
21 Tachwedd
27 Mawrth
29 Mehefin
20 Gorffennaf

**Ffilmio cyfres "Athrawon" ym mis Medi**

Hoffwn nodi un peth penodol am y flwyddyn nesaf yn Llanhari. Mae Cwmni teledu Carlam yn mynd i fod yn ffilmio cyfres ar gyfer S4C yn Ysgol Llanhari rhwng Medi 2025 a Gorffennaf 2026.

Nod y gyfres hon yw dilyn nifer o athrawon newydd ar y cam cyntaf yn eu gyrfa, ac i weld yr holl waith amrywiol maent yn ei wneud yn rhinwedd eu swydd, gan gynnwys helpu gyda gweithgareddau ac ymweliadau allgyrsiol, dysgu eu pynciau arbennigol a gweithio gyda'u dosbarthiadau cofrestru. Bydd tri athro newydd yn ymuno â ni ym Medi sef Mr Siôn-Rhys Evans (Gwyddoniaeth a Chemeg), Mr Caeo Pryce (Cymraeg) a Miss Rianna Sutton (Technoleg ac Arlwyo)

Hoffwn eich sicrhau na fydd addysg y disgyblion yn cael ei amharu yn ystod y ffilmio a fydd yn digwydd ar ddyddiau penodol bob hanner tymor. Canolbwyntio ar yr athrawon, nid y disgyblion ydy'r bwriad ond bydd rhai, yn anorfod, yn cael eu cynnwys yn y broses.

Mae'r gyfres wedi ei hanelu at y teulu cyfan yn ystod oriau brig, gyda pheth deunydd atodol ar rai platfformau cyfryngau cymdeithasol.

Byddwn yn cysylltu â chi fel rhieni â mwy o fanylion ym mis Medi ond mae'n debygol y bydd y cwmni ffilmio yn yr ysgol yn ffilmio ar ddiwrnod cyntaf y disgyblion ar Fedi'r 3ydd. Os **NAD** ydych yn dymuno i'ch plentyn fod yn rhan, gofynnaf yn garedig i chi gysylltu â ni yn yr ysgol ar post@llanhari.cymru erbyn **Dydd Gwener y 29ain o Awst.** Mae hyn hefyd yn berthnasol i ddisgyblion presennol Dosbarth Barcud.

**Gwisg ysgol**


Mae Blwyddyn 6 wedi derbyn manylion archebu a phrynu'r wisg ysgol eisoes. Cofiwch bod grant gwisg ysgol ar gael i ddisgyblion sy'n derbyn cinio rhad. Disgwylir i bawb gadw at ddisgwyliadau'r wisg ysgol os gwelwch yn dda a dibynnwn ar eich cyd-weithrediad chi fel rhieni i annog eich plant i gadw at y safon sy'n ddisgwyliedig. Byddwn yn cysylltu â chi ym mis Medi os na fydd safon y wisg gyn dderbyniol.

**Canlyniadau arholiadau**

Bydd canlyniadau Safon Uwch ar gael i'w casglu o'r ysgol ar ddydd Iau, Awst 14eg a chanlyniadau TGAU ar fore Iau y 21ain o Awst. Gall disgyblion blwyddyn 10 gasglu eu canlyniadau hefyd ar y 21ain o Awst.

Dymuniadau gorau am wyliau Haf braf i bawb a diolch unwaith eto am eich cefnogaeth eleni.

Yn gywir,



Mrs Meinir Thomas
Pennaeth

Ysgol Llanhari

Llanhari, Pontyclun, Rhondda Cynon Taf, CF72 9XE
01443 237824 | post@llanhari.cymru
www.llanhari.cymru

17th of July 2025

Dear Parents and Carers

At the end of another extremely busy year at Ysgol Llanhari, I would like to thank you very much as parents for your continued support. It has once again been a pleasure to work with the school's pupils and staff and I am extremely proud of what we have achieved this year again. The school has gone from strength to strength and the pupils across the age range have had unforgettable experiences. I am very grateful to the staff for this and the energy and enthusiasm of the pupils has been fantastic. There are numerous highlights but a special thank you must be given to everyone who supported the school's 50th anniversary celebrations at various times during the year. We are also very excited that planning for the new building in conjunction with the Local Authority, is progressing well and we have had many site visits recently.

Some members of staff will be leaving us at the end of the term. Mrs Emma Goodridge, Subject Leader for English is retiring. Her contribution to the school over the past twenty years has been invaluable and we wish her well in her retirement. Miss Danielle Gunn is the new Subject Leader for English. Miss Catrin Rowlands, Subject Leader for Welsh will be moving to a new position as the Head of Education at the Museum of Wales. We wish her well in her new post and we also thank her for her notable contribution to the school over the years. Mrs Cerys Davies-Harries will be the new Subject Leader for Welsh when she returns from maternity leave. Mr Daniel Harries and Miss Sophie Powell are moving to West Wales to new positions at Maes y Gwendraeth and Strade schools while Miss Lois Griffith is moving to Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg after spending some time travelling. Thanks to them all for their work. We have welcomed Miss Bronwen Swain back from her maternity leave this week.

Turning our sights towards September, I would like to draw your attention to the following:

**The Bromcom App**

You have already received details about Bromcom in a letter from Mrs Porter this week. I would like to stress that we will not be using Classcharts from September onwards.

**Returning to school**

I look forward to welcoming everyone back in September including, of course, the pupils of Barcud, Year 6 Llanhari who are transferring to the secondary department. The first day of term for pupils will be **Wednesday September 3rd 2025**. Monday September 1st and Tuesday September 2nd are INSET days at Ysgol Llanhari. You will receive a calendar of all the important dates for the year in early September but here are the INSET days for the next academic year:

1 + 2 September
21 November
27 March
29 June
20 July

**Filming a television series "Athrawon" in September**

I would like to note one specific thing about next year in Llanhari. A Welsh TV company Carlam will be filming a series for S4C at the school between September 2025 and July 2026. The aim of the series is to follow some newly qualified teachers as they take their first steps in their chosen career, and to see the many different aspects of their work- such as helping with extracurricular activities and visits, teaching their specific subjects and working with their registration classes. Three new teachers will join us in September namely Mr Siôn-Rhys Evans (Science and Chemistry) Mr Caeo Pryce (Welsh) and Miss Rianna Sutton (Design Technology and Catering)

The filming will take place on specific days every half term, but this will not disrupt the pupils' education in any way. The main focus of the filming will be the teachers themselves and not the pupils but some will be featured in the process.

This series is aimed at family audience in a primetime, pre-watershed slot and with accompanying content on some social media platforms.

I will contact you as parents with more details in September but it is likely that the film company will be filming the teachers on the pupils' first day on September 3rd. If you do **NOT** wish your child to be involved, I kindly ask you to contact us at the school on post@llanhari.cymru by **Friday the 29th of August.** This is also relevant to the current pupils in Barcud.

**School uniform**

Year 6 have already received details of ordering and purchasing the school uniform. Please remember that a school uniform grant is available for pupils who receive free school meals. Everyone is expected to adhere to the expectations of the school uniform please and we rely on your co-operation as parents to ensure that your children keep to the standard that is expected. We will contact you in September if the standard of the uniform is not acceptable.

**Exam results**

A Level results will be available to collect from the school on Thursday, August 14th and GCSE results on the morning of Thursday 21st August. Year 10 pupils can also collect their results on the 21st of August.

Best wishes for a restful Summer holiday and thank you again for your support this year.

Yours sincerely

Meinir Thomas

Mrs Meinir Thomas
Headteacher